# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Safonau a Moeseg o bell trwy fideo-gynadledda, Dydd Llun, 7 Chwefror 2022 am 3.00 pm i ddrafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3. Ystyried cais am ollyngiad gan Gyngh Ruth Davies - Cyngor Cymuned Llangoedmor (Tudalennau 3 - 14)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

# CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

## Gwybodaeth

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurfleni am bob cais.

## Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
**Ffôn: 01545 570881**

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk **/** MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

## CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

### 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Ruth Davies

Cyngor:

Sir: ☐ Tref/Cymuned: ☒

Enw eich Cyngor: Cyngor Cymuned Llangoedmor

Eich cyfeiriad: Tan yr Onnen, Llangoedmor, Aberteifi

Cod post: SA43 2LX

Rhif(au) ffôn: 07815658955

Cyfeiriad e-bost: ruthllangoedmor@gmail.com

### 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?

Cais cynllunio gan gymydog i newid defnydd ei eiddo i fod yn fusnes glampio.

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

Disgrifiwch eich buddiant sy’n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:

Cais cynllunio A211044 ar gyfer 6 pod glampio, toiled a chawodydd a lle parcio cysylltiedig yn The Gardener’s Cottage, The Walled Gardens, Llangoedmor, Aberteifi SA43 2LQ.
Mae gan yr ymgeisydd fynediad preifat dros fy nhir i’w annedd ond nid hawl i newid defnydd y mynediad ar gyfer y datblygiad newydd arfaethedig. Mae’r trac mynediad eisoes mewn cyflwr gwael oherwydd y defnydd anghyfreithlon o’i garej fel Airbnb hyd at Nadolig 2021 ac yn awr fel annedd ychwanegol. Nid oes gan y cymdogion hawddfreintiau ychwanegol ar gyfer y mynediad ychwanegol nac ar gyfer y prif gyflenwad dŵr i’r ‘annedd’ hon na chwaith ar gyfer y cais presennol am yr unedau Glampio a’r toiledau a’r cawodydd a ddarperir. Cyflenwir y dŵr i eiddo’r cymdogion drwy is-fesurydd o’m ffarm i. Mae’r prif gyflenwad dŵr yn dod i ben dros 900 metr i ffwrdd wrth fferm Cwrcoed. Mae pwysedd y dŵr eisoes yn isel ac mae’r dŵr a ddefnyddiwyd o fis Rhagfyr 2020 i fis Mehefin 2021 eisoes wedi cynyddu gan 25% heb ddim cynnydd yn y defnydd amaethyddol neu fwy o dda byw, a dim dŵr yn gollwng. Nid yw defnyddwyr presennol y lôn yn cau gât y cae ar ben y lôn / ar y briffordd gyhoeddus. Mae da byw yn crwydro mas o’r cae yn rheolaidd o achos hyn. Dros y misoedd diwethaf mae'r gât wedi cael ei gadael ar agor yn rheolaidd serch inni siarad â'r ymgeisydd ac mae arwydd ar y gât yn gofyn iddi gael ei chau drwy’r amser. Hefyd gwelwyd cŵn ymwelwyr yn cwrso ar ôl y da a bydd hyn ond yn cynyddu wrth i nifer yr aelwydydd gynyddu o’r ddwy aelwyd a ganiateir ar hyn o bryd i chwe aelwyd arall.

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned)

**Sir - Cyngor** ☐ **Sir – Cabinet** ☐

**Sir - Pwyllgor** ☐ **Tref / Cymuned** ☒

**Arall** ☐
**(rhowch fanylion)** ______________________________

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; ☒

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl; ☒

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; ☐

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; ☐

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod; ☐

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; ☒

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno; ☐

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; ☒

(ix) unrhyw — ☐

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy; ☐

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef; ☒

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i); ☒

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno; ☐

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu ☐

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo, ☒

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na’r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a ☐

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw. ☐

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Rwy'n berchen ar y ffordd fynediad lle mae gan yr ymgeisydd hawl dros fy nhir i'w eiddo presennol. Nid yw wedi gwneud cais am hawddfraint ar gyfer newid y defnydd o'r mynediad. Mae'r trac mynediad eisoes mewn cyflwr gwael oherwydd y traffig ychwanegol yn sgil gwaith adeiladu diweddar yr ymgeisydd a chymydog arall. Dylai'r ffordd fynediad ond gael dwy annedd yn teithio ar ei hyd ond, yn sgil torri hawliau cynllunio, mae rhagor o draffig wedi bod arni o achos defnydd anghyfreithlon o Airbnb mewn adeilad sydd i fod yn garej. Mae'r cais cynllunio hwn ar gyfer chwe aelwyd /llety ychwanegol. Mae'r trac yn ymestyn am ychydig gannoedd o fetrau heb lefydd i basio.

Mae'r fferm wedi arallgyfeirio yn ddiweddar yn faes gwersylla fel rhan o'r rheol 56 diwrnod ar gyfer gwersylloedd y llynedd. Mae bellach wedi'i thrwyddedu gyda'r Greener Camping Club. Yr haf diwethaf, gwnaethom ymholiad cyn-ymgeisio ynghylch cynnig darpariaeth fwy parhaol ar y ffarm i ddarparu profiadau wyna, neu deithiau trochi ym myd y ffarm, gydag ymwelwyr yn aros mewn cytiau bugail ynghyd â bloc newydd ar gyfer toiledau cawodydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai gwrthwynebiad gan yr Adran Briffyrdd o achos y cynnydd mewn traffig ar y lôn gul. Byddai'r pryderon hyn o ran Priffyrdd yn berthnasol i'r cais hwn ynghyd â'r materion ychwanegol ynghylch y trac mynediad preifat sydd heb lefydd pasio pe bai angen i gerbyd o'r gwasanaethau brys neu gerbydau eraill fynd heibio. Mae tri gwersyll ar hyd y trac sengl yma ar hyn o bryd, sef Bythynnod a Glampio Rosehill, Clwb Carafanio Golygfa a Gwersyll Coedmor.

Mae'r arfarniad o'r datblygiad o ran priffyrdd a chludiant yn rhoi sylw i'r rhwydwaith priffyrdd sy'n gwasanaethu'r safle, mynediad wrth y briffordd gyhoeddus a'r trefniadau mynediad, parcio a throi yn fewnol. Mae Polisi Cynllunio Cymru TAN 18 yn nodi y dylai penderfyniadau ystyried a ellir cael mynediad diogel ac addas i safle; ac mae Polisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddarparu amgylchedd diogel drwy sicrhau bod dyluniad adeiladau a llwybrau mynediad cysylltiedig yn dilyn egwyddorion sylfaenol o ran diogelwch. Mae Polisïau DM03, DM04 a DM05 yn ystyried Teithio Cynaliadwy. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol a'r Ddeddf Llesiant yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried cysylltedd.

Rhwydwaith Priffyrdd: Lôn wledig gul yw'r Ffordd Ddiddosbarth sy'n gwasanaethu safle'r cais. Mae gan y rhwydwaith priffyrdd gyfyngiadau lleol o ran lled ffyrdd, gwelededd cyfyng a chyffyrdd sydd ddim o safon. Mae modurwyr yn debygol o rifyrsio os byddant yn cwrdd â thraffig o'r cyfeiriad arall, er mwyn pasio. Mae'n amlwg fod y rhwydwaith priffyrdd yn anaddas ar gyfer cerbydau sydd â threlars a faniau gwersylla. At hynny, mae'r ffordd yn rhy gul i ddau gerbyd basio ei gilydd neu basio cerddwyr / beicwyr.

Mae Pennod 6 o'r *Manual for Streets* yn pennu'r gofynion ar gyfer cerbydau brys: Dylai fod 3.7m o led, o leiaf, rhwng cyrbau'r gerbytffordd. Gellid lleihau'r llwybr mynediad i 2.75m am bellteroedd byr, ar yr amod y gall y cyfarpar pwmpio gyrraedd o fewn 45m i fynedfeydd yr anheddau. Mae modd i lôn fynediad i gerbydau fod ar ffurf ffordd neu lwybr arall ac ni ddylai cerbydau'r gwasanaeth tân orfod rifyrsio mwy nag 20 metr.
Mae'r ffordd fynediad breifat i'r datblygiad arfaethedig hwn ychydig dros led car heb unrhyw lefydd pasio dros y darn cyfan (dros 250m).

Mae'r cyflenwad dŵr i'r eiddo yn mynd drwy is-fesurydd dŵr o'r ffarm. Mae pwysedd dŵr y prif gyflenwad eisoes yn isel gan fod y cyswllt â phibell prif gyflenwad Dŵr Cymru yn terfynu wrth Fferm Cwrcoed tua 800m o adeiladau'r ffarm, a 900m o is-fesurydd yr ymgeisydd.

Mae'r cais cynllunio o fewn ardal ddynodedig Tir Parc Hanesyddol Coedmor. Pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol am ddatblygu a ganiateir ar gyfer y garej yn Gardener’s Cottage, ni chafodd y dynodiad hwn ei ystyried er bod strwythur y ‘garej’ yn enfawr ac yn cynnwys 3 garej, gweithdy, storfa a llofft. Mae'r cais presennol hwn o fewn gerddi muriog ystâd hanesyddol Coedmor, a dyma oedd safle gwreiddiol plasty Coedmor medd haneswyr.

Saif y datblygiad o fewn metrau i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedmor. Mae’r ymateb cynllunio cyn-ymgeisio a roddwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn datgan y canlynol – “Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Mae’r Afon Teifi wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Yn yr ardal hon mae ambell i leoliad o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol o ran bywyd gwyllt.

“Yn ddiweddar derbyniodd yr Awdurdod Lleol lythyr oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â’r lefelau uchel o ffosffadau a geir yn Afon Teifi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir Ceredigion y dylai awdurdodau cymwys gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) cyn penderfynu ar gais cynllunio a allai arwain at ragor o ffosffadau yn y dalgylch.

“Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal Asesiad ar unrhyw gais cynllunio perthnasol sy'n dod o fewn y ffin a dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Os oes ‘Effaith Sylweddol yn Debygol’, rhaid i'r Cyngor gynnal ‘Asesiad Priodol’ er mwyn penderfynu, yn wyddonol sicr, na fyddai 'Effaith Niweidiol ar Integriti’ y safle dynodedig yn sgil y cynllun neu'r prosiect, boed hynny ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

“Mae’r Cyngor yn rhoi sylw i hyn wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Os na ellir profi na fydd effaith andwyol ar integriti, ni ellir rhoi caniatâd cynllunio heb ystyried yn ddwys eto o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

“Mae'r gofyniad hwn yn effeithio ar ddatblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau a dalgylch SAC Afon Teifi. Mae’n debygol y bydd effaith, felly, ar y datblygiad a gynigir. Oni ellir dangos na fydd unrhyw effaith ar y SAC drwy gyfrwng mesurau lliniaru, ni fydd modd cefnogi’r cynnig ar hyn o bryd hyd nes y bydd y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff sy'n gwasanaethu’r safle yn cael ei uwchraddio.”

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae **Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001** yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy’n briodol.

| | |
|---|---|
| (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; | ☐ |
| (b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys; | ☐ |

| | |
|---|---|
| (c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; | ☒ |
| (d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; | ☒ |
| (e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☒ |
| (f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; | ☒ |
| (g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol | ☐ |
| (h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu | ☐ |
| (i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu. | ☐ |

## 5. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD - MWY O WYBODAETH

Nodwch isod y rhesymau pam rydych chi’n credu y dylai’r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad yn yr achos hwn (hynny yw, esboniwch pam rydych chi’n credu y bodlonwyd un neu fwy o’r meini prawf ar gyfer rhoi gollyngiad)
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Credaf ei bod yn bwysig siarad ar goedd am y materion sy'n ymwneud â mynediad dros fy nhir gan na fyddai aelodau eraill yn ymwybodol, efallai, o'r cyfyngiadau presennol o ran mynediad i'r eiddo. Mae gan yr ymgeisydd hawl tramwy dros fy eiddo ond ni chytunwyd ar unrhyw hawl tramwy ychwanegol ar gyfer newid defnydd. Nid yw'r ymgeisydd wedi datgan bod ganddynt is-fesurydd ar gyfer dŵr o’r prif gyflenwad ac nad ydynt wedi nodi sut y bodlonir y gofynion uwch am y dŵr ar y safle. Byddai pobl sy'n anghyfarwydd â'r materion cyflenwi dŵr yn credu fod problem gyda’r gwasanaethau cyflenwi i’r annedd. Ni fyddai'n hysbys i’r cyd-gynghorwyr fod pibell ddŵr y prif gyflenwad sy'n gwasanaethu'r ardal yn dod i ben tua 800m o'r ffarm a 900m o is-fesurydd yr ymgeisydd. Byddai pellter ychwanegol i’r ardal glampio hefyd. Mae'r pwysedd dŵr eisoes yn isel ar y ffarm a byddai'r galwadau ychwanegol hyn ar y gwasanaeth yn effeithio ar y cyflenwad dŵr i'r cafnau yn y caeau. Unwaith eto, mae'r ymgeisydd wedi methu â thrafod y gofynion ychwanegol o ran hawddfraint dŵr o’r is-fesurydd. Mae’r defnydd o’r cyflenwad dŵr eisoes wedi cynyddu gan 25% rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021.

Pryder yr Adran Briffyrdd ynghylch cais cyn-cynllunio 2 Medi 2021. Parthed addasrwydd yr heol ar gyfer traffig ychwanegol i’r busnes glampio, fel y nodir uchod.

Yr effaith ar Warchodfa Natur Genedlaethol Coedmor oherwydd saif y datblygiad o fewn metrau iddi.

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

**6. CAIS**

A ydych chi'n gwneud cais am ollyngiad i siarad yn unig, ynteu i siarad a phleidleisio?

Siarad yn Unig: ☐ Siarad a Phleidleisio: ☒

Rhowch reswm dros hyn:

Rhoi trosolwg o'r cais a'r effaith y byddai yn ei chael ar y tai a'r busnesau cyfagos, a'r gymuned leol ehangach gan gynnwys yr effaith ar y Warchodfa Natur Genedlaethol sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; hefyd y mynediad preifat, cyflenwad dŵr pwysedd isel ar gyfer y da byw a chynnydd mewn traffig.

**7. HYD Y GOLLYNGIAD**

Am ba hyd y gofynnir am y gollyngiad hwn?

**Penodol:**

Cyfarfod(ydd) Penodol: ☒

Nodwch ddyddiad(au)'r cyfarfod(ydd): 7 Chwefror 2022

**Cyffredinol:**

Chwe mis: ☐ Deuddeg mis: ☐

**8. DATGANIAD**

Yr wyf yn gofyn am ollyngiad ynglŷn â'r mater uchod.

**Yr wyf yn cadarnhau fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth.**

Llofnod: R Davies

Dyddiad: 31 / 01 /22

**Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i:**

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Diweddarwyd y ffurflen 23/03/20

Ffôn: 01545 570881

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol